

Rhif: WG17995



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Diogelu gwybodaeth fiometrïg  
dysgwyr mewn ysgolion a  
sefydliadau addysg bellach



Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2013

# Diogelu gwybodaeth fiometrïg dysgwyr mewn ysgolïon a sefydliadau addysg bellach

- Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu, prifathrawon, staff ysgol a phenaethïad a staff yn sefydliadau addysg bellach.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn manylu ar yr ymatebïon a gafwyd i ymgynghoriad ar ganllawïau ar ddiogelu gwybodaeth fiometrïg plant mewn ysgolïon a sefydliadau addysg bellach.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirïo ymholïadau am y ddogfen hon at:  
Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolïon  
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolïon  
Yr Adran Addysg a Sgïliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [IMS@cymru.gsi.gov.uk](mailto:IMS@cymru.gsi.gov.uk)
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau)

# Cynnwys

Cyflwyniad	1
Y camau nesaf	2
Yr ymatebion	3
Rhestr lawn o'r ymatebwyr	7

## Cyflwyniad

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 'Diogelu gwybodaeth fiometrig plant mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach – canllawiau' ar 15 Mai 2012 ac roedd ar agor i ymatebion tan 7 Awst 2012. Roedd cyfanswm o 4 cwestiwn wedi'u nodi mewn profforma ac roedd ffurflen ar-lein ar gael i hwyluso ymateb drwy e-bost. Roedd fersiwn o'r ymgynghoriad a oedd yn gyfeillgar i blant a phobl ifanc ar gael hefyd ac ym mis Mai 2012 cynhaliwyd ymgynghoriad dwyieithog â dysgwyr o Ganolbarth a Gogledd Cymru.

Roedd cytundeb cyffredinol bod y canllawiau arfaethedig yn yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol o ran egluro cyfrifoldebau cyfreithiol ysgolion, er y cafwyd ceisiadau am fwy o wybodaeth a diwygiadau gan rai ymatebwyr. Ystyriwyd yr holl ymatebion yn fanwl wrth greu'r canllawiau terfynol. Isod ceir crynodeb o'r ymatebion, wedi'i drefnu'n themâu.

## **Y camau nesaf**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddarau'r canllawiau terfynol a bydd yn rhoi sylw priodol i ymatebion yr ymgylgoreion wrth ddrafftio'r canllawiau terfynol hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r fersiwn derfynol o'r ddogfen ganllawiau yng ngwanwyn 2013. Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro effaith cyflwyno'r dyletswyddau newydd ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach (AB) ac yn adolygu'r canllawiau yn y blynyddoedd a ddaw.

## **Yr ymatebion**

Cafwyd cyfanswm o 9 ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Er na chafwyd ond nifer fach o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd nifer fawr o randdeiliaid wedi cael yr ymgynghoriad. Mae'n bosibl bod nifer yr ymatebion yn fach am fod y rhai a'i derbyniodd yn meddwl bod y canllawiau'n glir ac nad oedd rhyw lawer i'w ychwanegu/diwygio. Cadarnheir hyn i ryw raddau am fod y rhai a ymatebodd yn cytuno'n gyffredinol bod y canllawiau'n ddigon clir ac nad oes rhyw lawer i'w ychwanegu/diwygio. Dim ond 7 o'r ymatebion a ddefnyddiodd gwestiynau profforma'r ymgynghoriad. Yn hytrach na dadansoddi'r ymatebion fesul cwestiwn felly, ystyrir yr ymatebion yn ôl dwy thema; gwybodaeth i'w hychwanegu, a diwygiadau i'r canllawiau arfaethedig.

Yn ogystal, ymatebodd 264 o blant i'r ymgynghoriad cyfeillgar i blant a phobl ifanc. Am fod yr ymgynghoriad hwn yn wahanol i'r ymgynghoriad oedolion caiff yr ymatebion eu dadansoddi ar wahân.

## **Yr ymgynghoriad oedolion**

Roedd cytundeb cyffredinol bod y canllawiau arfaethedig yn yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol o ran egluro cyfrifoldebau cyfreithiol ysgolion a dim ond un ymatebydd oedd yn anghytuno. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o wybodaeth ac awgrymodd rhai ddiwygiadau hefyd. Cafwyd rhai ymatebion a oedd y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn, am eu bod yn sylwi ar y ddeddfwriaeth yn hytrach na'r canllawiau. Am nad yw'r ymatebion hyn yng nghwmpas yr ymgynghoriad, nid ystyrir hwy isod.

## **Gwybodaeth ychwanegol**

Gofynnodd tri ymatebydd am fwy o arweiniad ar weithredu. Roedd rhai yn poeni'n benodol nad oedd yr amserlen yn ddigonol i gynnig trefniadau eraill os na cheid caniatâd gan rieni dysgwyr mewn ysgolion sydd eisoes yn defnyddio data biometrig. Gofynnwyd, ar gyfer ysgolion sydd eisoes yn defnyddio data

biometrig, a ellid ystyried methiant i ymateb yn ganiatâd. Nid yw Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn caniatáu hynny, a'r hyn sy'n ofynnol yw caniatâd gweithredol gan rieni yn ysgrifenedig. Bydd y canllawiau'n cael eu diwygio i nodi'r dyddiad y daw'r dyletswyddau newydd i rym ac i gadarnhau na fydd yn gyfreithlon dan unrhyw amgylchiadau i ysgol neu sefydliad AB brosesu data biometrig dysgwr heb gael y caniatâd angenrheidiol yn gyntaf. Bydd ysgolion a sefydliadau AB yn cael eu cynghori i gynllunio ac i drefnu i hysbysu rhieni, cael caniatâd ac ystyried trefniadau eraill cyn hynny.

Gofynnodd un ymatebydd am ragor o wybodaeth ar rôl awdurdodau lleol. Bydd cwestiwn arall yn cael ei ychwanegu at Gwestiynau Cyffredin y canllawiau i ymdrin â'r ymholiad hwn.

Gofynnodd un ymatebydd am fwy o arweiniad hefyd ar sefyllfaoedd lle y bydd dysgwr yn gofyn i'r ysgol/sefydliad AB beidio â chysylltu â'i rieni, yn enwedig yn achos dysgwyr 16 oed a throsodd. Bydd cwestiwn arall yn cael ei ychwanegu at Gwestiynau Cyffredin y canllawiau i ymdrin â'r ymholiad hwn.

Cafwyd cais gan un ymatebydd i'r canllawiau nodi bod yn rhaid i ysgolion/sefydliadau AB fod yn hyderus ynghylch hunaniaeth y sawl sy'n rhoi caniatâd. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at y canllawiau.

Roedd un ymatebydd am weld mwy o wybodaeth am yr angen i ysgolion a sefydliadau AB sy'n ystyried cyflwyno system fiometrig gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at y canllawiau.

## **Diwygiadau**

Gofynnodd un ymatebydd a ellid diwygio'r diffiniad o "brosesu" i adlewyrchu'n llawnach y diffiniad o brosesu yn adran 1 (1) o'r Ddeddf Diogelu Data. Bydd y canllawiau'n cael eu diwygio i gynnwys y diffiniad llawn o brosesu fel yn y Ddeddf Diogelu Data.

Roedd dau ymatebydd yn poeni am yr ateb i'r Cwestiwn Cyffredin "A oes angen hysbysu rhieni a chael eu caniatâd i ddefnyddio ffotograffau a theledu cylch cyfyng mewn ysgolion?" Bydd yr ateb hwn yn cael ei newid i osgoi amwysedd.

Roedd dau ymatebydd am weld newidiadau i'r hysbysiad a'r ffurflen gydsynio enghreifftiol. Gellir defnyddio'r hysbysiad a'r ffurflen gydsynio enghreifftiol fel templed a gall ysgolion a sefydliadau AB eu haddasu ar gyfer eu systemau eu hunain. Mae hyn wedi'i egluro yn y canllawiau.

Nododd dau ymatebydd nad yw canllawiau 2008 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddata biometrig mewn ysgolion yn gyfoes bellach a bydd y canllawiau hyn yn cael eu dileu o wefan y Swyddfa erbyn Medi 2013. Bydd cyfeiriadau atynt yn cael eu dileu o'r canllawiau terfynol.

## **Yr ymgynghoriad plant a phobl ifanc**

Roedd pob un o sesiynau gweithdy'r ymgynghoriad yn cynnwys cyflwyniad digidol o'r fersiwn plant a phobl ifanc o'r canllawiau, a chyfle wedyn i'r ymatebwyr ateb cyfres o gwestiynau. Ar ôl y cyflwyniad roedd 95% o'r ymatebwyr yn deall bod yn rhaid i ysgolion a cholegau gael caniatâd i ddefnyddio'u data; roedd 99% yn deall bod ganddynt yr hawl i 'ddweud na' i roi eu data; roedd 92% yn deall bod yn rhaid i'w gwybodaeth gael ei dinistrio pe baent yn gadael yr ysgol neu'n newid eu meddwl am roi caniatâd; ac roedd 79% yn deall bod yn rhaid i ysgolion ddod o hyd i ffordd arall o adnabod dysgwyr nad ydynt yn rhoi caniatâd i ddefnyddio'u gwybodaeth fiometrig. Dim ond 54% oedd yn deall bod gan yr ysgol gyfrifoldebau am y ffordd y caiff yr wybodaeth hon ei storio<sup>1</sup>.

Dywedodd 61% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyfeillgar i blant a phobl ifanc eu bod yn meddwl bod defnyddio systemau biometrig yn syniad da,

---

<sup>1</sup> Mae'r holl ganrannau'n seiliedig ar y rhai a atebodd y cwestiwn, diystyrwyd y rhai nad atebodd.



dywedodd 16% eu bod yn meddwl ei fod yn syniad gwael a dywedodd 22% nad oeddent yn gwybod a oedd yn syniad da neu'n syniad gwael.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad plant a phobl ifanc yn trafod defnyddio gwybodaeth fiometrigrig mewn ysgolion yn gyffredinol yn hytrach na rhoi sylwadau ar y canllawiau. Er hynny, roedd yn amlwg o'r atebion i'r cwestiynau fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn deall eu hawliau o'r cyflwyniad a gawsent ar y canllawiau i blant a phobl ifanc.

## **Rhestr lawn o'r ymatebwyr**

Coleg Glannau Dyfrdwy

Llywodraethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)

Biostore Ltd

Cyngor Sir Fynwy

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr

264 o ddysgwyr o Ganolbarth a Gogledd Cymru